



Welsh NHS Confederation
Conffederasiwn GIG Cymru

Llais

Arweinyddiaeth y GIG yng Nghymru

ADRODDIAD EFFAITH 2022/23



Rhagair

Mae 2022/23 wedi bod yn flwyddyn ddigynsail. Mewn cyfnod o newid gwleidyddol, cynnwrf economaidd ac anghydfodau diwydiannol, rydym wedi pwysleisio'r materion mwyaf arwyddocaol i arweinwyr y GIG yng Nghymru ac wedi darparu llawer o gefnogaeth angenrheidiol iddynt yn y cefndir.

Boed hynny'n ceisio dylanwadu ar y llywodraeth am setliad cyllid teg i'r GIG, gwella dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol, annog y llywodraeth ac undebau i ddatrys yr anghydfod diwydiannol neu ymgysylltu â gwleidyddion am yr angen am ddull traws-lywodraethol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, nid ydym byth yn osgoi chwarae ein rhan yn helpu i ddatrys y problemau sy'n wynebu'r sector iechyd a gofal.

Mae'r gefnogaeth a roddwyd gan y tîm i grwpiau arweinyddiaeth y GIG wedi bod yn ddiwyro, o symleiddio rhaglenni gwaith arweinwyr i wella'r dulliau rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ar draws grwpiau cymheiriaid y Prif Weithredwr, y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Cadeirydd. Mae hyn wedi gwella cydlyniant trwy gynyddu dealltwriaeth o flaenoriaethau'r system gyfan, gan greu'r ysgogiad i archwilio heriau cyffredin a datblygu atebion ar y cyd. Mae gweithio'n agos iawn gydag arweinwyr y GIG yn ein galluogi i gael mewnwelediad manwl, sy'n ein galluogi i gael dylanwad mawr ar ein gwaith polisi.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedi wynebu heriau aruthrol, ac mae tîm Conffederasiwn GIG Cymru wedi sicrhau bod arweinwyr wedi derbyn cefnogaeth ac wedi cael eu clywed. Felly, mae'n dda edrych yn ôl ac adlewyrchu ar yr hyn rydym wedi ei gyflawni a'i ddysgu. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o rai o'r ffyrdd yr ydym wedi cael effaith ar ran ein haelodau yn ystod y 12 mis diwethaf.

Byddwn yn parhau i gynrychioli, cysylltu a chefnogi arweinwyr y GIG yng Nghymru yn y flwyddyn i ddod, wrth iddynt wynebu heriau a chyfleoedd newydd wrth i ni agosáu at 75 mlynedd o'r GIG.



Darren Hughes
Cyfarwyddwr
Conffederasiwn GIG Cymru




Pwy ydym ni

Corff aelodaeth cenedlaethol yw Conffederasiwn GIG Cymru, sy'n cynrychioli arweinwyr a sefydliadau'r GIG yng Nghymru: y saith bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth y GIG a dau awdurdod iechyd arbennig.

Rydym yn cynnal Cyflogwyr GIG Cymru ac rydym yn rhan o Gonffederasiwn y GIG; elusen gofrestredig sy'n denu ei haelodaeth o bob rhan o'r system iechyd yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Ein tîm

Mae Conffederasiwn GIG Cymru yn cynnwys tîm bychan sy'n gyfrifol am gyfathrebu, polisiau ac ymgysylltu ag aelodau. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gydag arweinwyr y GIG i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli, yn gysylltiedig a'u bod yn derbyn cefnogaeth ar lefel genedlaethol.



Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Rydym yn cynorthwyo ein haelodau trwy weithredu fel grym dros newid cadarnhaol trwy gynrychiolaeth gref, gan gysylltu Arweinwyr systemau, a thrwy ein polisi rhagweithiol, ein gwaith dylanwadu, cyfathrebu ac ymgysylltu.



Cynrychioli

Rydym yn cynrychioli sefydliadau a sectorau er mwyn sicrhau bod sefydliadau a systemau lleol yn gweithio er budd defnyddwyr y gwasanaeth, dinasyddion a staff.



Cysylltu

Rydym yn cysylltu'r system gofal iechyd gyfan i hybu gwaith system a datblygu atebion i heriau a rennir.




Cymorth

Rydym yn cynorthwyo arweinwyr i ddatblygu a gwella eu sgiliau arweinyddiaeth, gan roi'r offer, y syniadau a'r mewnwelediad i arweinwyr a'u rhoi mewn cysylltiad â chymuned o arweinwyr.

Ein haelodau

Byrddau Iechyd Lleol

- 1 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- 3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 4 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- 5 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- 6 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- 7 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



Awdurdodau Iechyd Rbennig

- + Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- + Addysg a Gwella Iechyd Cymru


4 – Llais Arweinyddiaeth y GIG yng Nghymru

Ymddiriedolaethau'r GIG

- + Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- + Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- + Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Cipolwg ar 2022/23

Cynrychioli



Rydym wedi cyhoeddi **50+** o ddatganiadau i'r wasg, blogiau a darnau sylwadau ac wedi derbyn **80+** o ymholiadau gan y cyfryngau, darparwyd **30+** o gyfweiliadau ar y radio a'r teledu, gan arwain at **130+** o grybwylliadau yn y cyfryngau



Ymateb i **12** o ymholiadau Pwyllgorau'r Senedd ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, a arweiniodd at **100+** o grybwylliadau yn y Senedd



Cyhoeddi **18** o bapurau briffio ac adroddiadau, yn galw am newid ac yn arddangos arfer da ac arloesedd ar draws y GIG yng Nghymru

Cysylltu



Cynhaliwyd **12** o ddigwyddiadau arwain agweddau ar-lein, a ddenodd **1,000+** o fynychwyr o bob rhan o'r sector iechyd a gofal a thu hwnt



Cynhaliwyd ein Cynhadledd a'n Harddangosfa Flynyddol, a ddenodd **300+** o gynrychiolwyr a **28** o sefydliadau fel arddangoswyr



Postiwyd i **6,000+** o ddilynwyr ar Twitter a LinkedIn, a ddenodd bron i **160,000** o argraffiadau a bron i **2,000** o ryngweithiadau



Cynhaliwyd **25** o gyfarfodydd y Gynghrair Iechyd a Lles, oedd yn gyfle i **80+** o sefydliadau iechyd a gofal ddod ynghyd

Cefnogaeth



Darparwyd cefnogaeth gorfforaethol a gweithredol ar gyfer **60+** o gyfarfodydd grŵp y cadeirydd, y dirprwy gadeirydd a'r prif weithredwr



Darparwyd cefnogaeth rheoli a gweinyddu rhaglenni ar gyfer **100+** o gyfarfodydd grwpiau cymheiriaid y cyfarwyddwr gweithredol, cydlynwyd **150+** o siaradwyr gwadd ac rydym wedi monitro'r broses o gyflawni **1,100+** o gamau gweithredu'r grŵp cymheiriaid



Cefnogwyd **40+** o gynrychiolwyr y GIG i ddarparu tystiolaeth lafar i ymholiadau Pwyllgorau'r Senedd



Cynhyrchwyd **200+** o bapurau briffio a diweddariadau i aelodau, oedd yn cynnwys y newyddion, y safbwyntiau a'r datblygiadau diweddaraf

10 ffordd yr ydym wedi cael effaith:

Dylanwad gwleidyddol ac yn y cyfryngau

Trwy ddefnyddio a rhannu mewnwelediadau aelodau, rydym wedi dod yn llais dibynadwy i arweinwyr y GIG yn y cyfryngau; gan ddylanwadu ar y naratif cenedlaethol, codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r system iechyd a gofal yng Nghymru, yn ogystal â datrysiadau posibl. Mae hyn wedi ein galluogi i gael dylanwad gwleidyddol cryf i sicrhau newid effeithiol

Mae ein dylanwad gwleidyddol ac yn y cyfryngau wedi canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol eleni:

01 Dylanwadu ar gyllideb y llywodraeth

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth ar broses Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth ar broses Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Mae hyn wedi cynnwys mynychu digwyddiadau rhanddeiliaid, ymgysylltu'n uniongyrchol ag Aelodau'r Senedd, darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft, cynorthwyo cynrychiolwyr y GIG i ddarparu tystiolaeth lafar, rhoi sylwadau yn y cyfryngau, cyhoeddi adroddiad manwl a darparu papurau briffio ar gyfer trafodaethau yn y Senedd.

Fe wnaethom gyfleu ceisiadau ariannol allweddol ein haelodau, oedd yn cwmpasu refeniw, cyfalaf, digidol, y gweithlu a gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod lleisiau arweinwyr y GIG yn cael eu clywed a'u deall yn well. Derbyniodd ein hymateb ysgrifenedig 22 o grybwylliadau yn y Senedd ac yn adroddiadau Pwyllgorau yn ystod y broses graffu, mwy nag unrhyw sefydliad arall.

“Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru wedi llywio trywydd cwestiynau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chroesawn eu hymateb i ymholiadau, Rwyf hefyd wedi defnyddio eu papurau briffio yn fy nghyfraniadau yn y Senedd.”

Aelod o'r Senedd

02

Codi ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol

Atgyfnerthwyd ein dylanwad fel sefydliad y cyfryngau ar gyfer materion llif cleifion ar draws y system gyfan.

Fe wnaethom helpu i feithrin dealltwriaeth newyddiadurwyr, gan daflu goleuni ar yr heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol a sut maent yn effeithio ar y GIG a'r boblogaeth ehangach.

Fe wnaethom gynnal arolwg o arweinwyr y GIG yng Nghymru, i'n galluogi i leisio eu safbwyntiau yn well ar faterion integreiddio a llif cleifion. Roedd ein hadroddiad yn galw ar y llywodraeth i ddarparu cyllid cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol. Fe wnaethom amlygu enghreifftiau o waith gan sefydliadau'r GIG, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, er mwyn gwella llif cleifion a darparu gofal gwell.

Arweiniodd y gwaith hwn at ymateb gan bleidiau gwleidyddol, trafodaethau pellach gydag Aelodau'r Senedd a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cael ein dyfynnu yn un o flogiau ymchwil y Senedd, crybwylliadau yn nhrefodaethau'r Senedd a sylw ar BBC Cymru Wales.

03

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

O ganlyniad i'r argyfwng costau byw, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i arweinwyr y GIG.

Fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion ehangach anghydraddoldebau iechyd ar draws ystod eang o ymatebion i ymchwiliadau'r Senedd, yn cynnwys canser gynaecolegol, y gyllideb ddrafft ac anghydraddoldebau ym meysydd deintyddiaeth ac iechyd meddwl. Cyfeiriwyd at ein ceisiadau ar 13 o achlysuron yn adroddiadau ymchwiliadau a thrafodaethau Pwyllgorau, ac yn helaeth yn yr adroddiad deintyddiaeth.

Rydym wedi ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd ar effeithiau'r argyfwng costau byw ac wedi gwneud cyflwyniadau yng nghyfarfodydd Trawsbleidiol y Senedd. Fe wnaethom gynnal gweminar amserol ar sut i ddiogelu iechyd ac achub bywydau pobl yn ystod yr argyfwng costau byw.

“ Mae Confederasiwn GIG Cymru yn darparu gwasanaeth hollbwysig i'r GIG yng Nghymru trwy ei waith yn darparu proses gyfathrebu glir, adeiladol a chraff rhwng y gwasanaeth, Llywodraeth Cymru ac aelodau etholedig ledled Cymru.”

Prif Weithredwr y GIG

04

Pwysleisio gwasgbwyntiau allweddol yn y system

Trwy gydol y flwyddyn, buom yn trafod, hysbysu, cynrychioli ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar amrywiaeth o bynciau eraill yn cynnwys goblygiadau parhaus COVID-19, iechyd y boblogaeth, mynediad i wasanaethau a gweithredu diwydiannol parhaus..

Rydym wedi darparu llais Cymru gyfan i wleidyddion ac yn y cyfryngau ar hyd yr anghydfodau gweithredu diwydiannol parhaus yn y GIG, ac wedi annog llywodraethau ac undebau llafur i wneud pob ymdrech i weithio tuag at ateb. Roedd hyn yn cynnwys gwella dealltwriaeth a dylanwadu ar naratif y cyfryngau, trwy ymatebion a chyfweiliadau radio a theledu gyda BBC Radio Wales, ITV Wales at Six, Global Radio a Chyfnodolyn y Gwasanaeth Iechyd.



“Rwy’n gwerthfawrogi gwaith Conffederasiwn GIG Cymru yn fawr iawn yn cynrychioli llais sefydliadau’r GIG. O ganlyniad i’r cysylltiadau agos a rheolaidd trwy’r grwpiau cymheiriaid gyda phob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth iechyd ac awdurdod iechyd arbennig ledled y wlad, a’r ffaith eu bod yn dîm cymharol fach ac agos, mae ganddynt ddealltwriaeth ddofn o’r materion rydym yn eu hwynebu yn ogystal â’r cyd-destun gwleidyddol ehangach.”

Cadeirydd y GIG

05


Cefnogi a chysylltu grwpiau arweinyddiaeth a rhaglenni gwaith

Rydym wedi hwyluso sgysiau cenedlaethol, gan gysylltu arweinwyr y GIG ledled Cymru a'r DU.

Mae'r dulliau gwell o rannu gwybodaeth ac arbenigedd ar draws grwpiau cymheiriaid wedi gwella dealltwriaeth o flaenoriaethau'r system gyfan ac wedi creu'r ysgogiad i archwilio heriau cyffredin a datblygu atebion ar y cyd.

Fe wnaethom wella ein cefnogaeth ysgrifenyddol a datblygu polisiau i gadeiryddion, dirprwy gadeiryddion a phrif weithredwyr, gan weithio'n agos gydag aelodau ar faterion strategol allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni eu blaenoriaethau unigol. Mae grwpiau cymheiriaid cyfarwyddwyr wedi elwa ar ein gwybodaeth strategol, ein seilwaith a'n cefnogaeth weinyddol, sydd wedi galluogi trafodaethau a gweithrediadau traws-sefydliadol.

Fe wnaethom gynnal digwyddiad Fforwm ar gyfer yr holl grwpiau cymheiriaid a fynychwyd gan 120 a mwy o gynrychiolwyr y cyfarwyddwr gweithredol. Roedd hyn yn caniatáu mwy o waith ar draws y grwpiau cymheiriaid i drafod a datblygu mentrau i drawsnewid gwasanaethau'r GIG.



“ Mae'r cymorth a ddarparwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru wedi bod yn amhrisiadwy. Maent wedi darparu lefel o barhad a chysondeb yn ystod cyfnod o amhariadau a fu'n ddefnyddiol iawn.”

Cadeirydd y grŵp cymheiriaid gweithredol

06

Darparu gwybodaeth werthfawr a rhannu arfer da

Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o arfer da ac arloesedd ar draws y GIG, sy'n helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion.

Mae ein briffiau rheolaidd wedi cwmpasu enghreifftiau ym maes gofal sylfaenol a chymunedol, ataliaeth ac ymyriadau cynnar ac arloesedd wrth gyflenwi gwasanaethau, yn cynnwys mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal sydd wedi ei gynllunio a chynorthwyo pobl i 'aros yn dda'.

Rydym wedi hysbysu arweinwyr y GIG am ddatblygiadau polisi a gwleidyddol trwy rannu dros 200 o sesiynau briffio aelodau a chylchlythyrau wythnosol a misol, gan ddarparu diweddiadau a rhannu'r newyddion diweddaraf i alluogi arweinwyr i wneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth ddiweddaraf.

07

Meithrin perthynas gref trwy ein Cynghrai iechyd a Lles

Fe wnaethom ail-lansio Cynghrai iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru, sy'n cynnwys 80 a mwy o sefydliadau iechyd a gofal erbyn hyn.

Rydym wedi datblygu safbwyntiau polisi a rennir ar feysydd sy'n cynnwys gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, gordewdra, yr hinsawdd a chynaliadwyedd ac anghydraddoldebau iechyd, sydd wedi arwain at fwy o ddylanwad gwleidyddol trwy weithio mewn partneriaeth.

Roedd Cofiwch y bwlch? Beth sy'n atal newid, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Meddygon, yn cynnwys galwadau am gynllun traws-lywodraethol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ac roedd y cyhoeddiad Mae popeth yn effeithio ar iechyd yn disgrifio'r ffordd mae sefydliadau'n gweithio i ddileu y rhwystrau hyn. Cymeradwywyd y ddau adroddiad gan 50 a mwy o sefydliadau ac arweiniodd hyn at ymgysylltiad pellach gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r gwrthbleidiau, oedd yn cefnogi ein galwadau yn y Senedd.



“ Mae'r berthynas a'r rhwydweithiau rydym wedi eu datblygu trwy'r Gynghrai iechyd a Lles yn amhrisiadwy, ac mae'r llais cyfunol yn bwerus iawn. Mae'r Cynghrai yn fenter wych ac rydym yn ei chefnogi'n llwyr.”

Aelod o Gynghrai iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru

08

Hyrwyddo arfer gorau ac arwain agweddau trwy ddigwyddiadau

Daeth 300 a mwy o gynrychiolwyr ynghyd o feysydd iechyd, gofal cymdeithasol a thu hwnt i'n Cynhadledd a'n Harddangosfa Flynyddol, gydag arddangosfa lawn, trafodaeth ar ystod o bynciau strategol ac adborth cadarnhaol.

Fe wnaethom sefydlu ein rhaglen gweminar Lles Cymru i hyrwyddo arwain agweddau ar draws ffiniau sectorau, a ddenodd 1,000 a mwy o gynrychiolwyr ar draws 12 o ddigwyddiadau.

Gan ymateb i anghenion aelodau, roedd y gweminarau'n cynnwys datblygu clystyrau gofal sylfaenol, effaith tai ar iechyd a lles a'r ffordd y mae darpariaethau digidol yn cefnogi trawsnewid iechyd a gofal yng Nghymru. Hefyd, fe wnaethom gynnal sesiwn prif siaradwr gyda Judith Paget CBE, a rannodd ei gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

09

Gweithio mewn partneriaeth i wella iechyd y boblogaeth

Eleni, rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau o wahanol sectorau i wella iechyd y boblogaeth.

Fel rhan o'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, fe wnaethom gomisiynu gwerthusiad o raglen cydlynedd y celfyddydau ac iechyd y byrddau iechyd, oedd yn dangos sut mae'r rhaglen wedi gwella iechyd a lles cleifion, staff a'r boblogaeth ehangach. Fe wnaethom arddangos sut mae Cymru'n arwain y ffordd o ran ymgorffori'r celfyddydau a chreadigrwydd ar draws y GIG mewn gweminar gyda thros 130 o gynrychiolwyr.

Fe wnaethom lansio adroddiad ar y cyd a sesiwn aelodau gyda Community Leisure UK i archwilio'r ffordd y gall ymddiriedolaethau hamdden a diwylliant gefnogi'r GIG ymhellach. Fe wnaethom gynnal digwyddiad ar y cyd hefyd yn y Senedd gydag ABPI Cymru Wales, gan ymgysylltu â 26 o Aelodau'r Senedd ac ymchwilwyr ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy feddygaeth arloesol.



“Mae cydweithio gyda Chonffederasiwn GIG Cymru wedi bod yn rhan flaenllaw o'n gwaith hybu iechyd. Mae eu rhwydwaith a'u gwybodaeth wedi ein cynorthwyo i greu cysylltiadau cryfach yn lleol a datblygu ac ehangu eu hagwedd at iechyd a lles sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.”

Confederasiwn GIG Cymru

10

Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i gynrychioli'r GIG yng Nghymru

Mewn cyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac fel aelodau'r bwrdd a phwyllgorau ar draws y sbectrwm iechyd a gofal, rydym wedi lleisio materion allweddol ar ran aelodau, ac wedi casglu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o heriau a chyfleoedd y GIG, a helpu i ddylanwadu ar bolisiau.

Rydym wedi ymgysylltu â gweinidogion, swyddogion a chyrrff y sector ar faterion o bwysigrwydd strategol i'n haelodau, yn cynnwys y cysylltiad rhwng iechyd a gofal, paratoi ar gyfer ymchwiliad COVID-19, gadael yr Undeb Ewropeaidd, Gweithrediaeth y GIG, anghydraddoldebau iechyd, heneiddio, anabledd, yr argyfwng hinsawdd a lles cenedlaethau'r dyfodol.

Cadw mewn cysylltiad

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am
Gonffederasiwn GIG Cymru trwy:



Danysgrifio i'n [cylchlythyrau](#) neu gofrestru i dderbyn bwletinau
Confederasiwn y GIG



Edrych ar [ddigwyddiadau](#) Confederasiwn GIG Cymru

Ein dilyn ni:



@WelshConfed



Welsh NHS Confederation

Ymweld â'n gwefan:



www.welshconfed.org

Oes gennych unrhyw gwestiynau neu a hoffech
rannu rhywbeth gyda ni?



info@welshnhsconfed.org



Confederasiwn GIG Cymru 029 2034 9850
8 Heol y Gadeirlan www.welshconfed.org
Caerdydd CF11 9LJ @WelshConfed



Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch ar fformat amgen, ebostiwch info@welshnhscconfed.org

© Confederasiwn y GIG 2023. Gallwch gopïo neu ddsbarthu'r gwaith hwn, ond mae'n rhaid i chi roi cydnabyddiaeth i'r awdur, ni allwch ei ddefnyddio at ddibenion masnachol, ac ni allwch newid, trawsnewid na datblygu'r gwaith.

Rhif elusen gofrestrdig 1090329